



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Datblygu'r diwydiant pren yng Ngymru

Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren

Rhagair gan y Gweinidog ac Cyflwyniad

Mae rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy, er mwyn cynhyrchu pren, yn helpu i leihau allyriadau carbon deuocsid net. Pan fydd y coed yn cael eu cynaeafu, mae'r carbon a gafodd ei gloi yn y coed wrth iddynt dyfu yn aros wedi'i storio yn y pren. Mae defnyddio pren mewn adeiladau a defnyddiau hirdymor eraill, fel celfi, yn cadw'r carbon hwnnw dan glo. Yn y cyfamser, gellir ailblannu'r tir lle y cynaeafwyd y pren, i ddal a chloi rhagor o garbon – a dyna'r cylch yn parhau.

Mae potensial gwirioneddol i Gymru gynyddu ac ychwanegu at werth y pren rydym yn ei dyfu yma, ac i ailddefnyddio ac ailgylchu rhagor o bren a ffeibr pren. Mae hyn yn creu cyfle i goedwigwyr, proseswyr pren a gweithgynhyrchwyr yng Nghymru gyfrannu at 'economi bren'. Mae cyfleoedd yn bosibl ar draws y gadwyn gyflenwi gyfan, o feithrinffeydd coed i waith plannu, rheoli, cynaeafu a llifio ac i ddylunio ac adeiladu cynhyrchion terfynol a fydd yn cloi'r carbon am flynyddoedd ar ôl i'r pren adael y goedwig.

Mae'n bleser gennyf gyhoeddi Strategaeth Ddiwydiannol gyntaf Cymru ar gyfer pren a fydd yn rhoi hwb i blannu, cynaeafu, ailstocio a chynyddu capasiti prosesu, ochr yn ochr â thyfu'r gweithlu medrus sydd ei angen i gynyddu'r cyflenwad yn gyflym. Mae momentwm gwirioneddol i fwrw ymlaen a chynyddu maint a gwerth y pren a dyfir yng Nghymru a'r cynhyrchion pren a gynhyrchir yng Nghymru. Wrth i'r byd weithio tuag at gyflawni sero-net, gall pren a ffeibr pren wneud cyfraniad uniongyrchol a phwysig at y broses o newid y deunyddiau rydym yn eu defnyddio – newid sydd ei angen er mwyn datgarboneiddio.

Mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar gynyddu'r pren sy'n cael ei gynhyrchu o goedwigoedd Cymru a chynyddu gwerth ychwanegol drwy brosesu a gweithgynhyrchu cynhyrchion pren. Mae enghreifftiau da o hyn ar waith yng Nghymru, gyda mentrau fel Tai ar y Cyd sy'n hyrwyddo cartrefi pren sero-net safonol, sy'n cael eu gweithgynhyrchu oddi ar y safle, gan roi cyfle mawr i brif ffrydio C16 a chynhyrchion pren eraill a dyfir yng Nghymru. Gall caffael cyhoeddus, ynghyd â dylunio arloesol a dilysu perfformiad, newid canfyddiadau a sbarduno galw. Po fwyaf o bren sy'n cael ei ddefnyddio ym maes adeiladu, po fwyaf diogel yw dyfodol y diwydiannau coedwigaeth – ac mae hyn yn cefnogi buddsoddiadau newydd, swyddi, a chanlyniadau o ran lleihau carbon.

Gan fod disgwyl i'r galw am bren gynyddu bedair gwaith yn fyd-eang erbyn 2050, mae angen inni sicrhau cyflenwad pren dibynadwy a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol, ac mae hyn yn golygu cynhyrchu rhagor o bren yng Nghymru, ochr yn ochr ag ailddefnyddio ac ailgylchu rhagor o bren, a mewnforydd pren mewn ffordd sy'n gyfrifol yn fyd-eang. Mae'r cynnydd aruthrol mae Cymru wedi'i wneud ym maes ailgylchu ers datganoli yn golygu ein bod eisoes yn arwain y byd o ran sicrhau bod deunyddiau yn mynd yn ôl i'r economi. Mae marchnad iach eisoes ar gyfer ffeibr pren wedi'i ailgylchu, ac mae potensial i adfer rhagor o bren nag sy'n cael ei adfer ar hyn o bryd, er enghraifft o adeiladau sy'n cael eu dymchwel.

Wrth gyflawni'r strategaeth hon, mae angen inni wynebu dwy her, sef yr argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur a'r risgiau a achosir gan achosion o dywydd eithafol amlach fel y stormydd a welwyd dros y gaeaf, sychder, llifogydd a thanau gwyllt. Mae coed hefyd yn cael eu bygwth gan blâu a phathogenau. Mae'n bwysig bod y sector coedwigaeth yn cynllunio ar gyfer y risgiau hyn er mwyn sicrhau

cynaliadwyedd y sector, yn enwedig o ystyried bod y cylchoedd cynllunio yn gymharol hirdymor.

Mae'r Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren yn nodi camau gweithredu i ddiogelu ein coedwigoedd at y dyfodol, gan gynnwys drwy ddewis rhywogaethau a fydd yn gynhyrchuol yn y dyfodol a sicrhau mynediad at stoc sy'n amrywiol yn genetig ac yn briodol i'r hinsawdd. Mae angen arnom gyflenwad dibynadwy o ddeunyddiau genetig coedwigoedd, gan gynnwys perllannau had a chapasiti digonol mewn meithrinfeydd coed. Yn y ffordd hon, gallwn sicrhau bod ein coedwigoedd pren, a'r holl swyddi sy'n dibynnu arnynt, yn ddiogel ac yn wydn.

Mae angen rhagor o weithwyr medrus i gyrraedd y targedau ar gyfer creu coetiroedd ac i gynhyrchu rhagor o bren o safon yng Nghymru, i fodloni'r galw cynyddol am dai cymdeithasol ffrâm bren carbon isel. Rhaid gweithredu felly ar fyrder i wneud iawn am y diffyg. Mae'r sectorau coedwigaeth, pren a gweithgynhyrchu uwch yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd ar gyfer gyrfaedd amrywiol a swyddi â chyflogau uchel. Mae angen gweithredu ar frys i helpu'r diwydiant i recriwtio a chadw yn well weithlu medrus, amrywiol a hyblyg sy'n gallu addasu i newid. Mae ein Rhaglen Sgiliau Hyblyg estynedig yn cynnwys y sectorau Coedwigaeth a Phren, sy'n golygu bod busnesau'n gallu mynd i'r afael â bylchau sgiliau ac uwchsgilio eu gweithlu. Mae'r strategaeth hon yn cynnig camau pellach i ddatblygu sector coedwigaeth cryf, gwydn a blaengar.

Wrth wraidd y strategaeth hon mae ymdeimlad o weithio gyda'n gilydd i oresgyn yr heriau ac i fanteisio ar y cyfleoedd i gefnogi cadwyni cyflenwi lleol i gynyddu gwerth ein pren - o'r goedwig i'r cynnyrch terfynol. Rwy'n awyddus i'n coedwigoedd gael eu defnyddio mewn ffordd weithredol, gynaliadwy ac amrywiol, gan ddarparu manteision economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol i bobl Cymru am ganrifoedd lawer i ddod – a bydd y strategaeth hon yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau hynny.

Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion
Gwledig, Gorffennaf 2025.

Cynnwys

1.	Blaenoriaeth 1 - Cynyddu'r cyflenwad pren.....	4
1.1	Ble'r ydym ni nawr.....	4
1.2	Trosolwg	4
1.3	Creu Coetiroedd	5
1.4	Rheoli Coetiroedd.....	6
1.5	Ailstocio	7
1.6	Iechyd a Diogelwch.....	7
1.7	Lle rydym eisiau bod.....	8
1.8	Beth y mae angen i ni ei wneud?.....	9
2.	Blaenoriaeth 2 - Cynyddu gwynnwch yn ein coedwigoedd	11
2.1	Ble'r ydym ni nawr.....	11
2.2	Lle rydym eisiau bod.....	12
2.3	Beth y mae angen i ni ei wneud?.....	13
3.	Blaenoriaeth 3 – Effeithlonrwydd Adnoddau ac Economi Gylchol	15
3.1	Ble'r ydym ni nawr.....	15
3.2	Lle rydym eisiau bod.....	16
3.3	Beth y mae angen i ni ei wneud?.....	17
4.	Blaenoriaeth 4 – Meithrin hyder yn y galw.....	19
4.1	Ble'r ydym ni nawr.....	19
4.2	Lle rydym eisiau bod.....	21
4.3	Beth y mae angen i ni ei wneud?.....	22
5.	Blaenoriaeth 5 – Datblygu Capasiti'r Sector.....	25
5.1	Ble rydyn ni nawr.....	25
5.2	Lle rydym eisiau bod.....	26
5.3	Beth y mae angen i ni ei wneud?.....	26
6.	Blaenoriaeth 6 – Wedi'i ategu gan newid ymddygiad.....	29
6.1	Ble'r ydym ni nawr.....	29
6.2	Lle rydym eisiau bod.....	29
6.3	Yr hyn y mae angen i ni ei wneud.....	30

1. Blaenoriaeth 1 - Cynyddu'r cyflenwad pren

1.1 Ble'r ydym ni nawr

- 1.1.1 Ar hyn o bryd, mae'r DU yn mewnfario llawer o'n pren. Mae Cymru'n cynnig amodau tyfu ffafriol i lawer o rywogaethau cynhyrchiol, rhai pren meddal a rhai pren caled. Fodd bynnag, mae'r adnoddau a ddarperir gan ein coetiroedd yng Nghymru yn cael eu tanddefnyddio ar hyn o bryd. Mae'r galw yn cynyddu gyda'r ymgyrch i ddarparu deunyddiau carbon isel o'r radd flaenaf sydd eu hangen i ddiwallu anghenion tai Cymru, ond ar hyn o bryd, nid yw prosesu pren Cymru yn cyd-fynd â'r galw, yn enwedig ar gyfer cynhyrchion adeiladu strwythurol.
- 1.1.2 Er mwyn sicrhau ffynhonnell ddibynadwy sy'n addas i'r diben ar gyfer y dyfodol, yn wyneb y pwysau cynyddol ar farchnadoedd byd-eang, rhaid i Gymru gymryd camau i gynyddu cynnyrch cynaliadwy o goed a ffibrau coed sy'n tyfu yng Nghymru. Mae rhagolygon cyfredol¹ yn dangos dirywiad parhaus yn y cynhaeaf coed yn y dyfodol, felly mae angen i ni ddefnyddio cyfuniad o goedwigaeth a chynyddu cynhyrchiant o'r coetiroedd presennol i gynyddu cynhaeafau coed cynaliadwy i fodloni'r galw yn y dyfodol a lleihau risgiau i ddiogelwch coed.
- 1.1.3 O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015², mae'r disgrifiad statudol o'r nod 'Cymru Ffyniannus' yn cyfeirio'n benodol at 'arloesol, cynhyrchiol a charbon isel' a Chymru sy'n 'defnyddio adnoddau'n effeithlon' ac yn 'cydnabod terfynau'r amgylchedd byd-eang'. Bydd parhau â'r momentwm sydd gennym eisoes yng Nghymru tuag at gylcholdeb defnyddio yn ehangu hyd oes ein hadnodd pren a ffibr pren. Bydd yr adnodd sydd gennym gartref yn cael ei gydbwyso trwy fewnfario mewn ffordd gyfrifol yn fyd-eang.

1.2 Trosolwg

- 1.2.1 Mae coed yn cynnig ystod eang o fanteision y tu hwnt i atafaelu a storio carbon a chynhyrchu pren. Mae ein coetiroedd yn darparu gwasanaethau ecosystem hanfodol sy'n darparu manteision cyhoeddus ac ecolegol mesuradwy. Mae'r rhain yn cynnwys gwella bioamrywiaeth, cysylltu cynefinoedd, sefydlogi priddoedd a lleihau erydiad, gwella hidlo pridd a rheoleiddio llif dŵr, sy'n helpu i atal llifogydd. Mae coed yn cyflawni manteision iechyd trwy wella ansawdd aer yn lleol ac effeithiau oeri. Mae coetiroedd yn cael eu mwynhau gan lawer ar gyfer hamdden ac adloniant, gan gynnig lleoliadau ar gyfer ymarfer corff a mynediad i fyd natur, a all ddod â buddion o ran iechyd meddwl a llesiant³.
- 1.2.2 Mae coed yn darparu lloches a chysgod i dda byw ac mae'n darparu ffynhonnell incwm ychwanegol i ffermwyr trwy gynaeafu pren a chynhyrchion coedwig nad ydynt yn bren yn gynaliadwy, a thrwy gymwysadau fel amaethgoedwigaeth.

¹ <https://cdn.forestresearch.gov.uk/2025/07/Atodiad-Data-Strategaeth-Ddiwydiannol-ar-gyfer-Coed.pdf>

² [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#)

³ [Rhoi gwerth ar fanteision iechyd meddwl coedwigoedd - Forest Research](#)

- 1.2.3 Gwnaeth Forest Research baratoi Atodiad Tystiolaeth⁴ i ategu'r strategaeth hon, gan goladu'r data sydd ar gael ar gyfer Cymru. Dyma ychydig o'r wybodaeth bennaf; gellir gweld rhagor o fanylion a thablau yn yr Atodiad Tystiolaeth.
- 1.2.4 Mae arwynebedd coetiroedd, fel y'i diffinnir gan y Rhestr Goedwigoedd Genedlaethol (NFI), wedi cynyddu yng Nghymru ers 1990, ac erbyn hyn, y lefel yw 15% o'r gorchudd tir yng Nghymru yn 2024. Ers 2024, mae mwy o goetir llydanddail yng Nghymru na choetir conifferaidd, sef 55.4% o gyfanswm yr arwynebedd coetiroedd.
- 1.2.5 Mae Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru (WGWE) yn cael ei rheoli ar ran Gweinidogion Cymru, gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Mae arwynebedd y coetir cyhoeddus wedi gostwng ers 1990 i 115 mil o hectarau, gan aros yn gyson yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys ffigurau rhagarweiniol ar gyfer 2024. Mae coetir preifat wedi cynyddu i 197 mil o hectarau, yn unol â ffigurau dros dro 2024. Mae'r cynnydd hwn yn gysylltiedig â oherwydd plannu a phrynu coetir a oedd yn flaenorol dan berchnogaeth gyhoeddus.
- 1.2.6 Erbyn 2023, mae maint y pren meddal a gynhyrchir yng Nghymru wedi cynyddu bron 65% ers 1990; fodd bynnag, mae'r maint a gynhyrchir wedi bod yn uwch nag y mae ar hyn o bryd mewn rhai blynyddoedd yn y cyfamser. Y 2023, mae maint y pren caled yng Nghymru wedi gostwng 47.1% ers 1990, ond ar hyn o bryd, mae'n uwch nag yr oedd mewn rhai blynyddoedd yn y cyfamser.
- 1.2.7 Ym 2023, daw tua 95% o'r pren a gynhyrchir yng Nghymru o gonwydd. Yn 2023, aeth 42% o'r pren meddal a gynhyrchwyd yng Nghymru yn uniongyrchol i felinau lifio a ffensys yng Nghymru. Disgwylir i argaeledd pren meddal leihau, a disgwylir i'r pren caled sydd ar gael o goed llydanddail gynyddu yng Nghymru rhwng 2022 a 2046. Ar hyn o bryd, mae Forest Research yn paratoi'r datganiad nesaf o'u rhagolwg cynhyrchu 50 mlynedd.

1.3 Creu Coetiroedd

- 1.3.1 Cyfarfu Tasglu Plannu Coed y DU⁵, dan gadeiryddiaeth Gweinidog Coedwigaeth y DU, Mary Creagh, am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2024. Mae gweinidogion o bedair gwlad y DU yn eistedd ar y tasglu, a chafodd Cymru ei chynrychioli gan Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Materion Gwledig.
- 1.3.2 Bydd y Tasglu yn atgyfnerthu gwaith cydweithredol ledled y DU i wella'r gwaith o blannu coed a sicrhau goroesiad coetiroedd yn y tymor hir, gan sicrhau eu manteision i genedlaethau'r dyfodol. Er bod coed a choedwigaeth yn faterion datganoledig, mae yna rai heriau a rennir. Mae'r fforwm hwn yn rhoi cyfle i weithio gyda'n gilydd, rhannu arferion da a datrys materion cyffredin i ategu ein targedau plannu coed a mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.
- 1.3.3 Mae gan Gymru Grŵp Rhanddeiliaid Coed a Gwrychoedd. Grŵp gwirfoddol ydyw, sy'n darparu cyngor a chefnogaeth i Lywodraeth Cymru ar gyflawni

⁴<https://cdn.forestresearch.gov.uk/2025/07/Atodiad-Data-Strategaeth-Ddiwydiannol-ar-gyfer-Coed.pdf>

⁵ [Datganiad Ysgrifenedig: Cyfarfod Cyntaf Tasglu Plannu Coed y DU \(19 Rhagfyr 2024\) | LLYWODRAETH. CYMRU](#)

targedau ar gyfer plannu coed a chreu gwrychoedd yng Nghymru, wedi'u cydbwysu yn erbyn amcanion allweddol eraill yn ymwneud â defnydd tir a rhai economaidd-gymdeithasol a diwylliannol ehangach. Bydd y grŵp hefyd yn ystyried dulliau o gynnal a chadw a rheoli coed a gwrychoedd yn barhaus fel elfennau allweddol o gyfalaf naturiol Cymru. Mae'r aelodau'n cynnwys cynrychiolwyr o'r llywodraeth, y diwydiant ffermio, y sector coedwigaeth, sefydliadau anllwyodraethol amgylcheddol, y gymuned wyddonol, a thirfeddianwyr mawr eraill.

- 1.3.4 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflawni'r Amcanion Rheoli Tir Cynaliadwy a nodir yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023⁶. Mae gan Gymru hefyd ymrwymadau sylweddol mewn perthynas â'r argyfwng natur a bioamrywiaeth o dan y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang⁷ a thrwy Fil yr Amgylchedd (Llywodraethant, Egwyddorion a Thargedau Bioamrywiaeth) sydd ar ddod⁸.
- 1.3.5 Yn 2018, roedd rhagair y Gweinidog i'r ddogfen "Diben a Rôl Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru"⁹ yn nodi egwyddorion allweddol, gan gynnwys y dylai'r arwynebedd coetiroedd ar yr ystâd fod yn fwy ymheng 25 mlynedd. Mae'r ddogfen hon yn nodi pwysigrwydd cynnal, botensial cynhyrchol cyffredinol WGWE, a lle bo hynny'n briodol, ei wella. Mae hefyd yn blaenoriaethu'r angen i gynnal plannu cyfadferol i liniaru colli coetir yn barhaol oherwydd camau gweithredu rheoli. Ar hyn o bryd mae CNC yn llwyddo i gyflawni targedau ar gyfer plannu iawndal ar hyn o bryd.
- 1.3.6 Os caiff ei wneud yn y ffordd gywir, gall plannu coed a chreu gwrychoedd gefnogi'n gadarnhaol yr holl amcanion ac ymrwymadau a nodir uchod.
- 1.4 Rheoli Coetiroedd
- 1.4.1 Mae rheoli coedwigoedd yn optimeiddio twf coed, a phan fydd yn addasu yn ôl yr amodau presennol y safle a'r amgylchedd, a rhai'r dyfodol, gall gefnogi iechyd y goedwig a gwytnwch y cyflenwad pren¹⁰. Mae hefyd yn darparu swyddi hirdymor da mewn ardaloedd gwledig.
- 1.4.2 Mae cynnal ein coetiroedd presennol yn faes cyfle hanfodol. Mae ardaloedd mawr o goetir llydanddail a choetir fferm heb eu rheoli yng Nghymru ar hyn o bryd. Er nad yw'r holl goetir hwn yn addas ar gyfer rheoli sy'n canolbwyntio ar y farchnad, gyda'i gilydd mae'n gyfle gwirioneddol i gynhyrchu mwy o bren y gellir ei ddefnyddio mewn ymateb i'r galw cynyddol a thrwy hynny, gefnogi datblygiad busnesau llai¹¹.
- 1.4.3 O dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS), bydd yr holl ffermwyr yn cael eu talu i gynnal eu coetir presennol fel Gweithred Gyffredinol yn unol â gofynion rheoli penodol. Os ydynt yn dymuno mynd ymhellach, bydd cymorth ar gyfer rheoli coetiroedd yn fwy rhagweithiol o dan haenau Dewisol a Chydweithredol

⁶ [Deddf Amaethyddiaeth \(Cymru\) 2023](#)

⁷ [Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal](#)

⁸ [Cyflwyno Bil yr Amgylchedd \(Egwyddorion, Llywodraethu a Thargedau Bioamrywiaeth\) \(Cymru\) \(2 Mehefin 2025\) | LLYWODRAETH. CYMRU](#)

⁹ [Diben a Rôl WGWE](#) 2018, t.2

¹⁰ [Timber and Decarbonising Wales - Woodknowledge Wales.pdf](#)

¹¹ [Coetiroedd i Gymru](#) 2018, t.33

y cynllun. Bydd cymorth tebyg ar gael i dirfeddianwyr eraill y tu allan i'r cynllun.

1.5 Ailstocio

- 1.5.1 Ailstocio yw disodli coed ar ardaloedd o goetir sydd wedi'u cwmpo, a hynny trwy ailblannu ac adfywio naturiol. Gan edrych yn unig ar ailstocio coetir sy'n eiddo i'r cyhoedd ac ailstocio coetir preifat a gynorthwyr gan grant, ailstociwyd 1.58 mil o hectarau o goetir yng Nghymru yn 2023/24.¹²
- 1.5.2 Mae angen i ni sicrhau bod ailstocio coedwigoedd preifat a chyhoeddus yn manteisio i'r eithaf ar gynhyrchu wrth gyflawni meini prawf eraill UKFS ar yr un pryd. Gallai manteisio i'r eithaf ar gynhyrchu yn ein strwythur coedwig presennol gael effaith sylweddol ar gyflenwadau pren yn y dyfodol, gan ddod â chanlyniadau cyflymach i ategu'r gwaith o greu coetir yn y tymor hwy.
- 1.5.3 Ar WGWE, mae'r rhaglen ailstocio a chreu coetiroedd sy'n cael ei chynnal gan CNC yn gofyn am gyflenwad dibynadwy o goed ifanc. Yn 2021, ymrwymodd CNC i gontract hirdymor gyda Maelor Forest Nurseries Ltd i warantu cyflenwad priodol o tua 30 miliwn o goed ar gyfer ailstocio a chreu coetir ar WGWE rhwng 2022/23 a 2030/31¹³. Mae hyn yn rhoi sicrwydd mawr ei angen bod gennym gyflenwad i allu ailstocio'n amserol a phriodol.
- 1.5.4 Mae rhagdybiaethau sy'n seiliedig ar berfformiad hyd yma yn llywio hyd cyfnodau segur fel rhan o waith Forest Research ar y rhagolwg cynhyrchu 50 mlynedd i'w gyhoeddi yn 2025. Y rhagdybiaeth ar gyfer y sector preifat yw 12 mis, ac mae CNC wedi ei osod ar 3 blynedd ar gyfer WGWE. Mae'r penderfyniadau'n benodol i'r safle, gyda chyfnodau segur yn cael eu pennu ar ôl ystyried cydbwysedd o ffactorau, gan gynnwys strategaeth gyffredinol CNC ar gyfer lleihau cemegion (rheoli plâu a chwyn), y rhaglen paratoi tir, y cyflenwad planhigion ac a oes contractwyr ar gael.

1.6 Iechyd a Diogelwch

- 1.6.1 Yn y sector amaeth, coedwigaeth a physgota y ceir y gyfradd uchaf o anafiadau yn y gweithle ym Mhrydain Fawr, gyda chyfradd marwolaethau sydd 21 gwaith yn uwch na'r cyfradd diwydiant gyfan.¹⁴ Felly, mae gwella iechyd a diogelwch o'r pwys mwyaf.
- 1.6.2 Ceir hierarchaeth o reolau i leihau'r risg: cael gwared ar y perygl neu roi rhywbeth yn ei le, ynysu pobl rhag y perygl, newid y ffordd y mae pobl yn gweithio (gan gynnwys hyfforddiant), a Chyfarpar Amddiffyn Personol (y Sefydliad Cenedlaethol dros Ddiogelwch Galwedigaethol ac Iechyd, 2023). Mae technoleg yn sbarduno gwelliannau yn yr holl feysydd hyn yn y sector coedwigaeth.
- 1.6.3 Ceir fforwm diwydiant sydd eisoes wedi'i sefydlu, sef y Cytundeb Diogelwch Diwydiant Coedwigaeth¹⁵ (FISA). Mae'r Cytundeb yn nodi bod Diwydiant Coedwigaeth y DU:

¹² <https://cdn.forestresearch.gov.uk/2025/07/Atodiad-Data-Strategaeth-Ddiwydiannol-ar-gyfer-Coed.pdf>

¹³ [Cyfoeth Naturiol Cymru / CNC yn cyhoeddi contract cyflenwi coed newydd](#)

¹⁴ [Fatal injuries in agriculture, forestry and fishing in Great Britain 2022/23 - HSE](#)

¹⁵ [Y Cytundeb](#)

- Bod modd atal yr holl farwolaethau ac anafiadau.
- Yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu diwylliant diogelwch newydd lle mae iechyd, diogelwch a lles pawb sy'n gweithio yn y diwydiant coedwigaeth yn flaenoriaeth sylfaenol.
- Yn credu y gallwn weithio ar y cyd i wella perfformiad iechyd a diogelwch ein diwydiant yn sylweddol, a hynny trwy arweinyddiaeth gref ac ymroddedig.

1.6.4 Mae aelodau Grŵp Llywio FISA yn cynnwys 28 o Brif Weithredwyr a chyfarwyddwyr cwmnïau, gan gynnwys busnesau contractio mawr a chymdeithasau masnach. Mae CNC yn cael ei gynrychioli ar y grŵp, ochr yn ochr â chynrychiolwyr y diwydiant, gan gynnwys Confor a Chymdeithas y Contractwyr Coedwigaeth.

1.7 Lle rydym eisiau bod

- 1.7.1 Byddwn yn cynyddu y gorchudd coetir yng Nghymru i ddod â'r holl fanteision lluosog sy'n gysylltiedig â choetiroedd, gan gynnwys plannu ar gyfer cynhyrchu pren yn y dyfodol. Wrth reoli coedwigoedd presennol, bydd yn bwysig cynnal gwaith teneuo, a chynaeafu'n brydlon i optimeiddio'r farchnad. Er mwyn sicrhau cyflenwad digonol ac addas o bren ar gyfer y dyfodol, rhaid i'r gwaith o ailblannu coed ar ôl casglu'r pren gadw i fyny â'r galw. Mae cyfle i gynyddu faint o docion a gesglir. Gellir rhoi tocion a thoriadau i'r gadwyn gyflenwi, yn hytrach na'u gadael heb eu defnyddio ar ôl cwmpo, er enghraifft cael eu trosi'n fio-olosg, gan ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon a darparu gwerth ychwanegol o weithrediadau coedwigaeth.
- 1.7.2 Yn ogystal â choedwigo, byddwn yn canolbwyntio adnoddau i wella'r ffordd y caiff coetiroedd sydd eisoes yn bodoli eu rheoli ar hyn o bryd, gan gynorthwyo trefeddiannwyr a ffermwyr i gynyddu y cyflenwad pren a ffibr pren, yn ogystal â lleihau'r risgiau i goedwigoedd a achosir gan newid yn yr hinsawdd, plâu a chlefydau.
- 1.7.3 Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yw ein hegwyddor arweiniol; mae hyn yn diwallu anghenion y byd sydd ohoni heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Byddwn yn rheoli ein coetiroedd yn briodol i gyrraedd lefelau uchel o warchodaeth amgylcheddol, gan gynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision y maent yn eu darparu, lliniaru newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo, a chyfrannu at y gwaith o atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth.
- 1.7.4 Mae Safon Sicrwydd Coetir y DU (UKWAS)¹⁶, a gyhoeddwyd gyntaf yn 2000, yn darparu safon archwilio gyffredin ar gyfer ardystio'n annibynnol fod coetiroedd yn y DU yn cael eu rheoli'n gynaliadwy. CNC sy'n rheoli WGWE yn unol â safon UKWAS. Mae cyfle i wneud mwy i ddenu'r sector preifat i fodloni safon UKWAS. Mae Confor yn cynrychioli'r sector ar grŵp llywio UKWAS, a bydd yn gweithio gyda'r cyrff ardystio i wneud achrediad UKWAS yn fwy deniadol i berchnogion coetiroedd bach.
- 1.7.5 Mae Cynllun Gwerthu a Marchnata Pren cyfredol CNC¹⁷ yn cyfleu eu dull o gynaeafu a marchnata pren o WGWE ar gyfer y cyfnod 2021-2026. Mae'r

¹⁶ [Hafan - UKWAS](#)

¹⁷ [Cyfoeth Naturiol Cymru / Cynllun gwerthu a marchnata pren 2021-2026](#)

cynllun presennol yn nodi y bydd CNC yn dod â 735,000m³ a 835,000m³ o bren i'r farchnad bob blwyddyn.

- 1.7.6 O ystyried rôl WGWE yn y dyfodol wrth gyfrannu at gynhyrchu pren yn barhaus, byddwn yn gweithio gyda CNC i wneud y mwyaf o'r cyfeintiau o bren a all ddod i'r farchnad. Byddwn yn ystyried a oes angen buddsoddiad mewn meithrin capasiti cynaeafu a seilwaith. Gallai buddsoddiad o'r fath gynnwys adeiladu ffyrdd i leihau'r risg o ffyrdd coedwigoedd yn dirywio yn y dyfodol, ac i ategu'r gwaith o deneuo cnydau sy'n anodd eu cyrraedd, gan wneud ymyriadau teneuo rheolaidd yn fwy cyraeddadwy.

1.8 Beth y mae angen i ni ei wneud?

Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol:

- Cyflwyno cynllun grant cyfalaf newydd yn 2025/2026 ar gyfer y sectorau coedwigaeth a phren i wneud cais am gyfraniad grant o hyd at 40% ar gyfer prynu offer, peiriannau a seilwaith ar raddfa fach. Bydd gweithgareddau cymwys yn cynnwys cael hyd i (cynaeafu) cynhyrchion coedwig, eu prosesu ac ychwanegu gwerth atynt, a rheoli gwiwerod a cheirw wrth gynnal coetir presennol.
- Cefnogi'r gwaith o greu coetiroedd o fewn a thu allan i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy trwy opsiynau hyblyg a darparu cyngor i sicrhau bod plannu priodol yn cael ei wneud, a rhoi'r offer i ffermwyr wneud penderfyniadau gwybodus drwy Gynllun Cyfle Plannu Coed a Gwrychoedd
- Datblygu opsiynau i'w cyflwyno i Weinidogion ynghylch modelau posibl ar gyfer cynyddu maint WGWE a'r adnodd coedwigaeth cysylltiedig, wrth sicrhau bod effeithiau ar flaenoriaethau defnydd tir eraill yn cael eu rheoli ar yr un pryd.
- Gweithio gyda CNC, Forest Research a rhanddeiliaid eraill i wella data a mesuriaeth coedwigoedd (hynny yw, mesur adnoddau coedwigoedd a'u meintioli, a hynny'n fanwl gywir) er mwyn gallu paratoi gwell rhagolygon tymor hir, gan roi hyder yng nghynaeafau pren y dyfodol a hwyluso dull mwy strategol o wneud pethau, gan effeithio'n gadarnhaol ar y gadwyn gyflenwi yn ei chyfanrwydd.
- Cydweithio â Forest Research a CNC i weld a oes modd defnyddio technegau synhwyro o bell i greu data cywirach am yr adnoddau coedwigoedd presennol, gan gynnwys lleiniau sy'n aros yn rhy hir cyn cael eu cwmpo¹⁸, er mwyn gallu amcangyfrif swm y pren ar Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru yn well.
- Cysylltu â CNC i fonitro effeithiau'r holl golledion parhaol (yn ogystal â ffactorau eraill) a allai fygwth yr adnodd pren cynhyrchiol, gan gymryd camau lliniaru i gynnal neu gynyddu lefelau ar WGWE. Casglu

¹⁸ Mae "aros yn rhy hir cyn cael eu cwmpo" yn dynodi cnydau nad oeddent wedi'u cwmpo o fewn y cyfnod cwmpo a bennwyd. D.S. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod y cnydau hyn yn rhy aeddfed/yn anefnyddiadwy/yn ansefydlog.

gwybodaeth o'r sector preifat hefyd, gan gydgyssylltu â Confor am eu harolwg (harolygon) o aelodau ynghylch colledion parhaol.

- Parhau i eistedd ar Weithgor Forest Research ar gyfer y Rhagolwg Cynhyrchu 50 mlynedd (i'w gyhoeddi yn 2025). Ei hyrwyddo o dan ein rhaglen cyfnewid gwybodaeth fel data allweddol i Gymru a all hwyluso buddsoddiad hirdymor cydgysylltiedig mewn seilwaith plannu a chynaeafu.

Bydd CNC yn gwneud y canlynol:

- Rhoi eu rhaglen adolygu Cynlluniau Adnoddau Coedwig ar waith i sicrhau bod potensial cynhyrchu pren yn cael ei ystyried ynghyd â gofynion UKFS, cynlluniau ardystio a chyflawni SMNR i gydbwyso'r holl ofynion ar WGWE.
- Defnyddio'r rhagolwg 50 mlynedd i ddatblygu eu cynllun gwerthu a marchnata pren 5 mlynedd. Bydd CNC yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i helpu i nodi'r buddsoddiad angenrheidiol yn WGWE i gynyddu'r gwaith cynaeafu er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfeintiau pren sydd ar gael.
- Darparu gwybodaeth am Asesiadau Effaith Amgylcheddol ar gyfer datgoedwigo, cwmpo anghyfreithlon a ffyrdd eraill o waredu coed y gwyddys amdanynt ar goetiroedd nad ydynt yn rhan o WGWE.
- Defnyddio modelau fel system gymorth Hylobius i helpu i wneud penderfyniadau ar gyfnodau segur a lleihau'r ddibyniaeth ar gemegion.
- Parhau i ddefnyddio safonau'r diwydiant ar gyfer mesuriaeth a chefnogi FR gan roi mynediad at ddata o WGWE iddynt i'w helpu i adrodd ar ddulliau newydd a'u datblygu.
- Cyfrannu at fforymau diogelwch y diwydiant, trwy aelodaeth o weithgorau allweddol, gan weithio mewn partneriaeth â FISA, Confor, y Gymdeithas Contractio Coedwigaeth/Forestry Contracting Association ac eraill. Gall WGWE gynnig cyfleoedd i arloesi ac ymchwilio i arferion coedwigoedd diogel i gyflawni cynnydd cynaliadwy yn y cyflenwad ledled Cymru.

2. Blaenoriaeth 2 - Cynyddu gwytnwch yn ein coedwigoedd

2.1 Ble'r ydym ni nawr

- 2.1.1 Mae tystiolaeth risg hinsawdd 2021 y Pwyllgor Newid Hinsawdd yn y DU (CCRA3-IA) yn tynnu sylw at risgiau i goedwigaeth sy'n deillio o ddigwyddiadau tywydd eithafol ac amodau hinsoddol newidiol (gan gynnwys newid tymheredd, prinder dŵr, tanau gwyllt, llifogydd, erydiad arfordirol, ymdreiddiad gwynt a dŵr hallt) a chan blâu, pathogenau a rhywogaethau goresgynnol. Gall cynhyrchiant coedwigaeth hefyd gael ei effeithio gan effeithiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ar briddoedd oherwydd sychder a gwlypter tymhorol¹⁹.
- 2.1.2 Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi rhaglenni ymchwil, gan gynnwys cyflwyno'r Strategaeth Gwyddoniaeth ac Arloesi ar gyfer coedwigaeth ym Mhrydain gan Forest Research²⁰, sy'n cynnwys ymchwil i rywogaethau coed amgen ac addasu arferion rheoli coedwigoedd i wella gwytnwch coedwigoedd i newid yn yr hinsawdd. Mae Forest Research wedi sefydlu Hwb Newid Hinsawdd²¹, sy'n darparu adnoddau ac offer sy'n helpu rheolwyr coedwigoedd i addasu arferion rheoli i ymdopi'n well â newid yn yr hinsawdd.
- 2.1.3 Mae angen i goedwigoedd fod yn iach a gallu gwrthsefyll effeithiau newid amgylcheddol os ydynt am barhau i gynhyrchu pren a mwy ohono, a darparu buddion eraill i gymdeithas a chynefin o ansawdd uchel i fywyd gwyllt. Adlewyrchir hyn yn y fersiwn ddiweddaraf o Safon Goedwigaeth y DU²² (UKFS), sy'n dweud, er mwyn cynnal neu sefydlu cyfansoddiad amrywiol ar draws yr uned rheoli coedwigoedd, na ddylid dyrannu mwy na 65% o'r ardal i un rhywogaeth.
- 2.1.4 Mae Llywodraeth Cymru yn annog ymdrechion parhaus i hyrwyddo amrywiaethu er mwyn gwella gwytnwch yn wyneb effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, plâu a chlefydau. Bydd angen i'r sectorau preifat a chyhoeddus gynllunio'n ofalus a defnyddio rhywogaethau amgen addas, bydd angen ei wneud i osgoi gostyngiad cyffredinol yn y gynhyrchu pren yn y dyfodol yng Nghymru.
- 2.1.5 Mae Safon Sicrwydd Coetir y DU (UKWAS)²³, a gyhoeddwyd gyntaf yn 2000, yn darparu safon archwilio gyffredin ar gyfer ardystio'n annibynnol fod coetiroedd yn y DU yn cael eu rheoli'n gynaliadwy. Defnyddir safon UKWAS fel sail i'r ddau gynllun ardystio coedwigoedd achrededig sy'n gweithredu yn y DU: y Cyngor® Stiwardiaeth Coedwigoedd²⁴ (FSC®) a'r Rhaglen Cymeradwyo Ardystio Coedwigoedd²⁵ (PEFC). Mae ardystio o dan un neu'r ddau o'r cynlluniau hyn yn rhoi sicrwydd i brynwyr a defnyddwyr pren a chynhyrchion pren eu bod yn dod o goetiroedd a reolir yn gynaliadwy.

¹⁹ [Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru 2024 | LLYW.CYMRU](#)

²⁰ [Strategaeth gwyddoniaeth ac arloesi ar gyfer coedwigaeth ym Mhrydain | LLYWODRAETH. CYMRU](#)

²¹ [Croeso i'r Hwb Newid Hinsawdd - Forest Research](#)

²² [Safon Coedwigaeth y DU - GOV.UK](#)

²³ [Cartref - UKWAS](#)

²⁴ [Cartref | Cyngor Rheoli Coedwig](#)

²⁵ [PEFC - Rhaglen ar gyfer Cadarnhad Coedwigo](#)

- 2.1.6 Y coetiroedd y mae CNC yn eu rheoli ar ran Gweinidogion Cymru yw'r cyflenwr pren mwyaf sydd â statws ardystio deuol yng Nghymru. Mae rheolaeth gynaliadwy WGE yn golygu bod y tir yn cael ei reoli yn y fath fodd fel bod modd cynnal bioamrywiaeth a phrosesau ecolegol naturiol, yn ogystal â bod yn fuddiol yn gymdeithasol ac yn economaidd²⁶.
- 2.1.7 Bydd dulliau coed-amaeth hefyd yn addasu i gwrdd â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n codi, gyda mwy o amrywiaeth, gan gynnwys technegau gorchudd parhaus a phlannu coed ar lannau afonydd. Bydd dylunio coedwigoedd yn ystyried mesurau ataliol fel dylunio ymylon coedwigoedd i wella sefydlogrwydd gwynt, creu gwahanol haenau canopi, adeiladu toriadau tân, teneuo a chynyddu'r gwaith i dynnu'r holl ddeunyddiau llosgadwy, gan gynnwys brash.
- 2.1.8 Mae'n bwysig deall potensial gwahanol ddulliau coed-amaethu i gyflawni gwahanol amcanion, dros wahanol amserlenni. Mae angen cymysgedd o gamau gweithredu tymor byr, i gyflymu atafaelu carbon a chynyddu'r cyflenwadau pren sydd ar gael, ochr yn ochr â phlannu ar gyfer amrywiaeth, gwytnwch ac atafaelu carbon yn y tymor hwy.
- 2.2 Lle rydym eisiau bod
- 2.2.1 O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015²⁷, mae'r disgrifiad statudol o'r nod 'Cymru Wydn' yn nodi ein hamcan i fod yn 'Genedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau sy'n gweithredu'n iach sy'n cefnogi gwytnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid'.
- 2.2.2 Rydym am gael coetiroedd ffyniannus ac ehangu ein gorchudd coetir yng Nghymru. Ein nod yw gwneud y mwyaf o'r manteision y maent yn eu darparu trwy ddod â mwy o goetiroedd o dan reolaeth effeithiol. Mae'r manteision hyn yn cynnwys rhai amgylcheddol, amwynder, bioamrywiaeth, atafaelu carbon a chynhyrchu pren cynaliadwy. I wneud hyn, bydd ein coetiroedd yn cael eu haddasu'n briodol i newid yn yr hinsawdd, gyda mwy o amrywiaeth a chymysgeddau rhywogaethau priodol ar gyfer gwytnwch yn y dyfodol.
- 2.2.3 Byddwn yn cefnogi ymdrechion ymchwil a datblygu parhaus i wella gwytnwch yn ein coetiroedd. Byddwn yn parhau i ddefnyddio stoc gwell, gan gynnwys conwydd a choed llydandail fel ei gilydd, yn dilyn gwaith y Gydweithrediaeth Bridio Conwydd ac Ymddiriedolaeth Coed y Dyfodol. Ar yr un pryd, byddwn yn pwyso am rywogaethau ehangach sy'n aeddfedu'n gyflymach ac amrywiaethu genetig. Byddwn yn cefnogi'r diwydiant wrth iddo barhau i geisio gwell stoc planhigion ar gyfer cynnyrch, cryfder a gwytnwch ac i wneud addasiadau ledled y gadwyn gyflenwi i gefnogi'r defnydd ehangach o rywogaethau amgen.
- 2.2.4 Mae'n hanfodol i bawb sy'n ymwneud â choedwigaeth gynyddu gwybodaeth a sgiliau, gan arwain at benderfyniadau gwybodus gwell ar arferion addasu i newid yn yr hinsawdd. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â Forest Research ar gyflawni eu Strategaeth Gwyddoniaeth ac Arloesi, sy'n cynnwys ymchwil i rywogaethau coed amgen ac addasu arferion rheoli coedwigoedd i wella gwytnwch coedwigoedd yn wyneb newid yn yr hinsawdd.

²⁶ [Cyfoeth Naturiol Cymru / Ein hardystiad coedwigoedd a choetiroedd](#)

²⁷ [Well-being of Future Generations \(Wales\) Act 2015](#)

- 2.2.5 Er mwyn i blannu coed newydd ymateb yn briodol i newid yn yr hinsawdd, mae'n bwysig cael mynediad at stoc genetig amrywiol ac sy'n briodol i'r hinsawdd, mewn niferoedd digonol. Byddwn yn sicrhau'r cyflenwad angenrheidiol o ddeunyddiau genetig coedwigoedd, gan gynnwys perllannau hadau, yn ogystal â chapasiti digonol mewn meithrinfeydd coedwigoedd.
- 2.2.6 Mae angen o leiaf tair blynedd o amser paratoi ar Forest Nurseries i gyflenwi'r planhigion sydd eu hangen ar gyfer creu ac ailstocio coetiroedd. Er mwyn lleihau'r risg i feithrinfeydd, cynigir contractau hirdymor lle bo hynny'n bosibl, fel y contract cyflenwi coed a wnaed gan CNC ar gyfer 2022/23 – 2030/31 ar gyfer ailstocio a chreu coetiroedd ar WGWE²⁸.
- 2.2.7 Byddwn yn adeiladu ar ein mesurau iechyd planhigion a bioddiogelwch presennol i sicrhau amddiffyniad effeithiol iawn i rywogaethau planhigion ac ecosystemau cysylltiedig rhag plâu a/neu pathogenau newydd a phresennol.
- 2.2.8 Arweiniodd sectorau garddwriaeth a choedwigaeth y DU y gwaith o ddatblygu'r Safon Rheoli Iechyd Planhigion, sy'n cael ei hystyried fel y safon feincnod o ran bioddiogelwch ac sy'n sail i Gynllun Ardystio Plant Healthy. Byddwn yn cynyddu hyder rheolwyr tir bod coed sy'n dod o gyflenwyr yn y DU yn cael eu diogelu'n well rhag plâu a chlefydau trwy fabwysiadu'r safon yng Nghymru.
- 2.2.9 Yn y dyfodol, o dan ein cynlluniau grant creu coetiroedd, byddwn yn cyflwyno'r gofyniad i reolwyr tir gael eu coed gan gyflenwyr sy'n gallu darparu tystiolaeth eu bod naill ai wedi cael ardystiad Plant Healthy²⁹ neu fod ganddynt Asesiad Parod i Blannu dilys³⁰ ar yr adeg y maent yn cyflenwi'r coed. Hyd nes y byddwn yn cyflwyno'r gofyniad, rydym yn argymhell yn gryf fod pobl sy'n caffael coed at ddibenion plannu o dan gynllun a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn sicrhau eu bod yn caffael stoc plannu gan gyflenwr sy'n rhan o Gynllun Ardystio Plant Healthy neu gynllun cyfatebol.

2.3 Beth y mae angen i ni ei wneud?

Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol:

- Cefnogi ymchwil, trwy raglenni fel y Strategaeth Gwyddoniaeth ac Arloesi ar gyfer Coedwigaeth ym Mhrydain³¹, i nodi rhywogaethau amgen a tharddiad a deall yn well sail genetig gwytnwch ystod o rywogaethau coed, gan gynnwys sefydlu mwy o leiniau prawf a chasglu hadau o goed o ansawdd uchel.
- Gweithio gyda Forest Research a phartneriaid eraill i greu offeryn dewis rhywogaethau cynhyrchiol yn y dyfodol ar gyfer Cymru, gan adeiladu ar yr offeryn a grëwyd ar gyfer yr Alban. Mae'r offeryn yn gosod meini prawf i asesu pob rhywogaeth (rhai llydanddail a chonwydd) yn eu herbyn a gellir eu pwysoli yn ôl blaenoriaethau'r defnyddiwr, gan gynhyrchu rhestr fer o'r rhywogaethau â'r sgoriau uchaf. Bydd hyn yn cyfrannu at waith Grŵp Adnoddau Genetig Coedwigaeth y DU ac yn llywio penderfyniadau yn y

²⁸ [Cyfoeth Naturiol Cymru / CNC yn cyhoeddi contract cyflenwi coed newydd](#)

²⁹ [Croeso i Plant Healthy - Plant Healthy](#)

³⁰ [Ready to Plant - Hafan](#)

³¹ [Rhaglenni ymchwil craidd 2021-26 - Forest Research](#)

dyfodol, gan gynnwys blaenoriaethu strategaethau gwella coed yn y dyfodol.

- Cyflwyno cynllun grant cyfalaf newydd yn 2025/2026 ar gyfer y sectorau coedwigaeth a phren, gan gynnwys meithrinfeydd coedwigoedd, i wneud cais am gyfraniad grant hyd at 40% ar gyfer prynu offer, peiriannau a seilwaith ar raddfa fach.
- Gweithio gyda'r sector i bennu cwrpas opsiynau ar gyfer sail ariannol bosibl i leihau'r risg i feithrinfeydd wrth ddarparu rhywogaethau cynhyrchiol amgen i helpu i gyflymu trawsnewid tuag at gynnig ystod enetig amrywiol o rywogaethau coed addas ar gyfer cynhyrchu pren yn y dyfodol.
- Gweithio gyda phartneriaid i gynyddu argaeledd hyfforddiant bioddiogelwch meithrinfeydd, gan ei ddod i mewn i feysydd llafur ac arferion gorau'r diwydiant lle bynnag y bo modd.
- Cynyddu'r gwaith o fonitro plâu a phathogenau a rhoi gwybod amdanynt i alluogi eu hadnabod yn gynnar a'u hatal rhag lledaenu.
- Diweddarau strategaeth *Phytophthora ramorum* Llywodraeth Cymru³², gyda CNC a Thîm Ymateb Gweithredol *Phytophthora*, yn ymateb i adolygiad gan Forest Research a wnaeth awgrymiadau am newidiadau yn yr ymagwedd tuag at yr hyn sy'n weddill o'r pathogen hwn mewn cwarantîn.
- Adolygu ein cynlluniau wrth gefn ar gyfer digwyddiadau tywydd eithafol. Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno cynllun wrth gefn ar gyfer coed sy'n cwmpo neu'n cael eu torri oherwydd y gwynt sy'n manylu ar y dull o hysbysu ein hunain, cymryd mesurau ataliol ac yna'r prosesau i'w dilyn wrth ddelio ag achosion difrifol o goed sy'n cwmpo neu'n cael eu torri oherwydd y gwynt yng nghoedwigoedd Cymru.
- Parhau, trwy gyfnewid gwybodaeth, i ddarparu mwy o ganllawiau'r llywodraeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, i annog gwell rheolaeth ar goetiroedd a chyflymu mesurau addasu.
- Meithrin cydweithrediad rhwng sefydliadau allweddol, gan gynnwys hwyluso trosglwyddo gwybodaeth rhwng meithrinfeydd, tyfwyr a llunwyr polisi, a defnyddio'r arferion gorau, gan gynnwys o wledydd eraill.

³²[Cyfoeth Naturiol Cymru / CNC yn cyhoeddi contract cyflenwi coed newydd](#)

3. Blaenoriaeth 3 – Effeithlonrwydd Adnoddau ac Economi Gylchol

3.1 Ble'r ydym ni nawr

- 3.1.1 Mae economi gylchol yn sicrhau bod adnoddau a deunyddiau yn cael eu defnyddio cyhyd ag y bo modd, ac yn osgoi pob gwastraff. Er mwyn datgarboneiddio ar raddfa fawr, mae symud i ffwrdd o ddeunyddiau sy'n ymgorffori lefelau uchel o garbon a'u disodli gan ddewisiadau amgen mwy cynaliadwy yn hanfodol. Mae'r trawsnewid i economi gylchol ('trawsnewid deunyddiau') yn un o'r meysydd cyfle mwyaf o ran tyfu'r economi werdd. Mae hyn yn hanfodol i fodloni rhwymedigaethau newid hinsawdd rhyngwladol ac i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur. Yn ogystal, mae mynediad at gyflenwadau gwydn o ddeunyddiau crai hanfodol yn dod yn fwyfwy pwysig, a bydd yn parhau i ddod yn fwyfwy pwysig.
- 3.1.2 Mae deunyddiau adfywiol yn ddeunyddiau sy'n seiliedig ar ddeunydd biolegol fel pren, gwellt neu gywarch, a / neu ddeunyddiau adeiladu sydd wedi'u hadennill neu eu hailgylchu sy'n cael eu cynhyrchu a'u defnyddio mewn ffyrdd sy'n cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd naturiol a chymdeithas. Gall eu dewis a'u cymhwyso mewn modd cyfrifol helpu i adfer adnoddau naturiol, gwella bioamrywiaeth a lles, a chyfrannu'n gadarnhaol at yr economi leol.³³
- 3.1.3 O ran effeithlonrwydd adnoddau, mae'n hanfodol manteisio i'r eithaf ar y pren sydd ar gael gennym yng Nghymru, gan gynhyrchu dim gwastraff, sicrhau'r cynnyrch uchaf ac ychwanegu gwerth at gynhyrchion. Mae melinwyr llifio eisoes yn fedrus iawn wrth ddefnyddio'r holl goeden, gan gynnwys rhisgl a blawd llif, i greu cynhyrchion y gellir eu gwerthu.
- 3.1.4 Ar ddiwedd y bywyd cyntaf, dylid archwilio'r potensial i aildddefnyddio ac ailgynhyrchu'n llawn, cyn troi at ailgylchu. Gellir aildddefnyddio neu ailbwrpasu cyfeintiau llai o bren i greu eitemau i'r cartref a deunyddiau adeiladu. Enghraifft o fenter gymunedol sydd eisoes yn gwneud hyn, ynghyd â chynnig hyfforddiant, yw menter gymdeithasol Reseiclo³⁴ yng Nghasnewydd, De Cymru.
- 3.1.5 Mae potensial i adennill mwy o bren nag sy'n cael ei adfeddiannu ar hyn o bryd, er enghraifft o adeiladau sydd wedi'u dymchwel. Bydd un o enillwyr yr Her Ysgolion Cynaliadwy³⁵, Ysgol Bontnewydd a'r Ganolfan Gymunedol yng Ngwynedd, yn gweithredu ar sail egwyddor carbon sero-net; mae'n defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu o ddau adeilad ar y safle a oedd i fod i gael eu dymchwel, a daw'r deunyddiau adeiladu o ffynonellau sydd mor agos â phosibl i'r safle, gan gynnwys pren a gwlân inswleiddio.
- 3.1.6 Mae cynnydd ailgylchu rhyfeddol Cymru ers datganoli yn golygu ein bod eisoes o'r radd flaenaf o ran cipio deunyddiau i fynd yn ôl i'r economi. Ym mis Ebrill 2024, cyflwynodd y Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle³⁶ waharddiad ar yr holl wastraff pren sy'n mynd i safleoedd tirlenwi fel rhan o set o waharddiadau cyflenwol a roddwyd ar waith ochr yn ochr â'r gofynion

³³ [Deunyddiau Adfywiol yn Gyntaf - Woodknowledge Wales](#)

³⁴ [Home | Reseiclo](#)

³⁵ [Tair ysgol carbon sero net newydd i'w hadeiladu – a'r disgyblion yn helpu i'w dylunio | LLYW.CYMRU](#)

³⁶ [Ailgylchu yn y gweithle | LLYW.CYMRU](#)

gwahanu ailgylchu yn y gweithle. Dylai hyn helpu i yrru'r duedd tuag at fwy o ailddefnyddio neu ailgylchu pren.

